OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2015 No. 1990

## Rheoliadau Microsglodynnu Cŵn (Cymru) 2015

### Person awdurdodedig

**11.**—(1) Caiff Gweinidogion Cymru, mewn ysgrifen, awdurdodi unrhyw berson ("person awdurdodedig") ("*anauthorised person*") i weithredu at y diben o orfodi'r Rheoliadau hyn.

(2) Caiff awdurdod lleol, ynglŷn â chŵn a gedwir yn ei ardal, awdurdodi, mewn ysgrifen, unrhyw berson ("person awdurdodedig") ("*anauthorised person*") weithredu at y diben o orfodi'r Rheoliadau hyn.

(3) Mae unrhyw gwnstabl yr heddlu neu swyddog cymorth cymunedol hefyd yn berson awdurdodedig at ddibenion y Rheoliadau hyn.

(4) Yn y rheoliad hwn, ystyr "swyddog cymorth cymunedol" ("*community support officer*") yw unrhyw un a ddynodwyd felly o dan adran 38(1) o Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002(**1**).

(**1**) 2002 p. 30. Diwygiwyd adran 38(1) gan adran 99 o Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol (p. 13) a pharagraffau 277 a 292 o Ran 3 o Atodlen 16, i'r Ddeddf honno.